

1. Y Gyfrinach

CYMERIADAU

- MIRIAM – Merch oddeutu 9–10 oed
- MARTHA – Chwaer Miriam oddeutu 12–13 oed
- MAM – Mam Miriam a Martha

Lleolir y ddrama hon mewn ysgubor neu stabl mewn pentref bychan y tu allan i Jerwsalem yn y cyfnod cyn geni'r Iesu.

Ar ochr chwith y llwyfan, mae stôl neu fwrn gwellt. Yno mae MIRIAM yn eistedd yn gwau, â'i chefn at y fynedfa sydd ar y dde. Tybia MIRIAM ei bod yn clywed rhywun yn dod, mae'n cynhyrfu ac yn cadw'i gwau. Does neb i'w weld. Yna, daw MARTHA i mewn ar flaenau'i thraed. Mae MIRIAM yn neidio i'w thraed.

MARTHA: Miriam? Be wyt ti'n neud?

MIRIAM: O! Helô Martha. Be sy arnat ti'n fy nychryn i fel yna?

MARTHA: Dim ond cerdded fel arfer oeddwn i. Faswn i ddim yn trio dychryn neb. Ta waeth, be wyt ti'n neud?

MIRIAM: Fedri di gadw cyfrinach?

MARTHA: Gallaf siŵr, ti'n gwybod hynny'n iawn.

MIRIAM: Wel, os wyt ti'n addo peidio â deud, fe ddangosa i i ti.

MARTHA: [*Yn ceisio gweld be mae MIRIAM yn ei guddio*] Tyrd yn dy flaen wir. Dangos i mi.

MIRIAM: [*Yn gwthio MARTHA*] Wyt ti'n addo?

MARTHA: Iawn, ydw, dwi'n addo.

MIRIAM: [*Yn dod â'r gwau i'r golwg*] Dyna ti! Mae o'n ddel, tydi?

MARTHA: [*Yn troi i ffwrdd ac yn ceisio peidio â chwerthin*] O! Ydy – del iawn. Ond be ydy o, Miriam?

MIRIAM: Blanced.

MARTHA: O, ia? Ydy dy hen draed bach di'n rhewi yn ystod y nos?

MIRIAM: Ha! Ha! Doniol iawn. Roeddwn i'n gwybod y baset ti'n chwerthin taswn i'n deud wrthat ti. Caria 'mlaen 'ta, chwertha di. Does dim ots gen i.

[Mae MIRIAM yn troi i ffwrdd ac yn crio]

MARTHA: Iawn. Paid â phwdu wir. Dim ond ... wel ... petait ti ond wedi deud ... O sori. Paid â chrio Miriam, plis paid â chrio.

MIRIAM: Rwyd ti bob amser yn chwerthin. Pam?

MARTHA: Dwi ddim yn neud hynny'n fwriadol! Rwyd ti'n ei neud hi mor hawdd i fi chwerthin am dy ben di. Rwyd ti'n meddwl am y pethau rhyfedda i'w neud. Yli ar y flanced 'ma. Fe fydda rhywun yn meddwl ein bod ni cyn dloted â llygoden eglwys. Dyma ti'n casglu rhyw hen beli o wllân ac yn gwau rhyw flanced ryfedd iawn yr olwg. Rwyd ti'n gwybod mai dim ond gofyn i Dad sydd raid i ti – fe fydda fo'n rhoi unrhyw beth i ti.

MIRIAM: Fedri di gadw cyfrinach?

MARTHA: Mae gen ti gyfrinach arall?

MIRIAM: Oes. Wel ... oes mewn ffordd.

MARTHA: Gallaf, ti'n gwybod hynny'n barod. A chyn i ti ddeud unrhyw beth arall – dwi'n addo – wir yr. Deud wrtha i be ydy'r gyfrinach arall 'ma.

MIRIAM: Nid i fi mae'r flanced.

MARTHA: Argol, nid i fi gobeithio!

MIRIAM: Paid â bod mor ddigywilydd. Anrheg ydy hi – anrheg i Anti Mair.

MARTHA: Anti Mair? Wyt ti'n meddwl y bydd hi'n ei hoffi hi?

MIRIAM: [Yn dechrau gwylltio] Wrth gwrs bydd hi. Mae Anti Mair yn un garedig.

MARTHA: [Hithau'n gwylltio hefyd] Wnes i ddim deud nad oedd hi, naddo? Ond Miriam fach, mae hi'n rhy fyr i Anti Mair. Fydd honna ddim yn gorchuddio'i choesa hi hyd yn oed. Deud y gwir, ai anrheg briodas i rywun ydy'r flanced?

MIRIAM: Na, nid anrheg briodas!

MARTHA: [Mewn syndod] Sut fath o anrheg ydy hi felly os nad ydy hi'n anrheg briodas?

MIRIAM: Fedri di gadw cyfrinach?

MARTHA: [Yn gwylltio go iawn] Os wnei di ofyn hynna unwaith eto, dwi'n addo un peth i ti – dwi ddim yn gwybod be wna i. Ti'n fy ngwylltio i go iawn rwan!

MIRIAM: Sori, mond gofyn.

MARTHA: Mond am y trydydd tro! Be ydy'r gyfrinach 'ma, Miriam?

MIRIAM: Mae Anti Mair yn disgwyl babi.

MARTHA: [*Wedi cael sioc*] Miriam! Paid â deud peth fel 'na byth eto! 'Tasa Mam yn dy glywed di rŵan fe faset ti'n cael clustan. Gofala di beidio â deud hynna wrth neb arall chwaith!

MIRIAM: Ond mae o'n wir! Mae o'n wir!

MARTHA: Os wnei di sôn unwaith eto am y peth dwi am ddeud wrth Mam.

MIRIAM: [*Yn dawel ond 'styfnig*] Mae o yn wir! [*Yn fywiog iawn*] A dos i ddeud wrth Mam os wyt ti isio – mae Mam yn gwybod yn barod. [*Yn dawel*] Ond tydi hi ddim yn gwybod mod i'n gwybod.

MARTHA: Wel wir Miriam – sôn am gelwyddgi!

MIRIAM: Tydw i ddim yn deud celwydd. Mae'n rhaid i ti addo cadw'r gyfrinach 'ma i ti dy hun!

MARTHA: [*Yn gwrthod credu*] Wyddost ti be Miriam? Dwi'n gobeithio nad ydy Duw yn gwrandao arnat ti rŵan – fe fysa fo'n siomedig iawn!

MIRIAM: Ond mae Duw yn gwybod am hyn hefyd!

MARTHA: Fedra i ddim aros fan'ma yn gwrandao arnat ti'n deud mwy o g'lwyrdd. Cofia di un peth – bydd Anti Mair ac Yncl Joseff yn priodi'n fuan. A tydyn nhw ddim angen hogan fach fel ti yn mynd o gwmpas yn hel straeon amdanyn nhw!

MIRIAM: Martha – fe fedra i hyd yn oed ddeud enw'r babi wrthat ti. Paid â phoeni – mae Yncl Joseff yn gwybod hefyd. Fe ddeudodd yr angel wrtho y byddai popeth yn iawn. Mae Yncl Joseff yn meddwl fod y cyfan yn anrhydedd mawr.

MARTHA: Dwyt ti ddim yn gall! Ti 'di drysu! “Fedra i hyd yn oed ddeud enw'r babi wrthat ti”! Be sy'n bod arnat ti?

MIRIAM: Iesu. Dyna fydd enw'r babi. Wel, dyna be ddeudodd Gabriel wrthyn nhw beth bynnag.

MARTHA: Iesu ia? Dwyt ti ddim yn gall! A phwy 'di Gabriel?

MIRIAM: Yr angel Gabriel siŵr iawn!

MARTHA: O, ie, siŵr iawn! Roedd rhaid i ti gael angel yn dy stori 'doedd? Yli Miriam – tydi pobl gyffredin fel ni ddim yn gweld angylion. Mae'r rheiny'n arbennig ar gyfer pobl bwysig. Y bobl bwysig hynny fydd Duw yn eu defnyddio i newid y byd. Proffwydi'r gorffennol – y bobl bwysig.

MIRIAM: Fe ddeudodd Gabriel fod Anti Mair yn arbennig. Mae'n wryf ac mae hi'n mynd i gael babi – felly mae'n rhaid ei bod hi'n arbennig!

MARTHA: [*Wedi dychryn*] Miriam – rwyt ti'n rhy ifanc i siarad am betha felly! Mae hyn yn hollol hurt!

- MIRIAM: Nac ydw! Dwi ddim yn wirion. Rwy'ti'n gas – yn genfigennus am nad oeddet ti'n gwybod!
- MARTHA: Na, dwi ddim! Beth bynnag, os ydy hyn yn wir, ac mae'n anodd iawn gen i gredu, ac os ydy o'n gymaint o gyfrinach, sut wyt ti'n gwybod am y peth? Paid â deud – yr angel ddaeth i ddeud wrthat ti!
- MIRIAM: Paid ti â bod mor wirion! Dwi ddim yn arbennig. Elli di gadw ... [*Mae MARTHA'n troi a bygwth MIRIAM*] ... Mae'n ddrwg gen i. Fe wnes i anghofio! Rwy'ti yn gallu cadw cyfrinach – [*Mewn arddull storiol*] Wel, roeddwn i'n chwilio am fy noli bren yn stabl Anti Mair a ...
- MARTHA: Pam oedd dy ddoli di yn stabl Anti Mair?
- MIRIAM: Mi wnes i 'i thafu hi at Philip diwrnod o'r blaen ond ... [*Mewn arddull storiol unwaith eto*] Roeddwn i yn stabl Anti Mair, a wir i ti, roedd y gwellt glân yn y preseb yn edrych mor gyfforddus, dyma fi'n eistedd i lawr ac yn syrthio i gysgu yn y fan a'r lle. Erbyn i mi ddeffro, roedd hi'n dywyll ac roeddwn i'n clywed rhywun y tu allan.
- MARTHA: Pwy oedd yna?
- MIRIAM: Dim syniad, ond daeth Anti Mair a Mam i mewn. Roeddwn i'n codi i fynd adref pan ddechreuodd y ddwy siarad.
- MARTHA: Cyfrwys wyt ti yndê ... [*Mae ei diddordeb yn cynyddu*] Be ddywedson nhw?
- MIRIAM: [*Yn araf – fel petai ei meddwl yn gymysglyd*] Dyma Mam yn deud na fysa hi'n credu'r fath beth oni bai i angel ddeud wrth Anti Leusa ei bod hi'n mynd i gael babi ar ôl yr holl flynyddoedd, a bod hynny'n wyrth! Os oedd hynny'n wir! [*Yn gyffrous*] Dan ni'n gwybod fod hynny'n wir, tydan Martha? Ond doeddwn i ddim yn gallu gwthio heibio iddyn nhw allan o'r lle, nag oeddwn?
- MARTHA: [*Hithau'n gymysglyd hefyd erbyn hyn*] Miriam, mae hyn fel stori dylwyth teg. Dwi isio gwybod be sy tu ôl i hyn i gyd. Efallai wedyn y bydd hi'n bosib i mi benderfynu a wyt ti'n wallgo neu beidio! [*Mae MARTHA yn eistedd ar stôl i wrando ar stori MIRIAM sy'n cerdded o gwmpas yn ddramatig*]
- MIRIAM: Pan ddaru Anti Mair ac Yncl Joseff ddyweddio, doedd hi ddim i fod i'w weld o wedyn nag oedd?
- MARTHA: Na, ti'n iawn. Ddylet ti ddim gweld dy ddarpar ŵr yn ystod y dyweddïad ti'n gweld! Roedd Anti Mair yn lwcus ei bod hi wedi gweld Joseff o gwbl. Gobeithio fyddwn ni mor lwcus â hynna!
- MIRIAM: [*Yn ddiamynedd*] Ti 'di gorffen? Fel o'n i'n deud ... Roedd Anti Mair yn cerdded yn yr ardd rhyw ddiwrnod pan ddaeth angel ati a deud wrthi ... be ddeudodd o rŵan ... o ia ... ei bod yn freintiedig iawn! Dyna'r union eiriau.
- MARTHA: Breintiedig iawn! Cael babi cyn iddi briodi Yncl Joseff? Doedd hynny'n fawr o fraint!

MIRIAM: Ond mi oedd o. Fe ddudodd yr angel hyn wrth Mair, “Daw’r Ysbryd Glân arnat, a bydd nerth y Goruchaf yn dy gysgodi; am hynny, gelwir y plentyn a genhedlir yn Sanctaidd, Mab Duw.”

MARTHA: Dwi dal ddim yn siŵr a ddylwn i dy gredu di!

MIRIAM: Sawl gwaith sy raid i fi ddeud, mae o’n wir! Doedd Anti Mair ddim yn credu i ddechrau chwaith. Ond fe ddeudodd Gabriel wrthi fod Anti Leusa’n mynd i gael babi hefyd ac roedd Anti Mair yn gwybod cymaint oedd Anti Leusa wedi anobeithio am gael plant – roedd hi’n hen rŵan ’doedd? Fe ddeudodd Gabriel y byddai popeth yn dod yn amser Duw.

MARTHA: Dyna pam aeth Anti Mair i aros gyda Anti Leusa? I weld a oedd hyn i gyd yn wir?

MIRIAM: Ia, mae’n rhaid.

MARTHA: Ond fuodd hi yno am fisoedd! Taswn i’n Yncl Joseff faswn i’n reit flin.

MIRIAM: Roedd Yncl Joseff yn flin am y cyfan. Nid am ei bod hi i ffwrdd mor hir ond am fod y babi ar ei ffordd.

MARTHA: Be naeth iddo newid ei feddwl ’ta?

MIRIAM: [*Yn y dull storiol eto*] Ddigwyddodd hyn cyn i Anti Mair fynd i ffwrdd. Roedd hi’n meddwl y dyla hi ddeud wrth Yncl Joseff am y babi.

MARTHA: Fysa hi’n well tasa hi wedi priodi gynta a deud wrtho fo wedyn! Roedd hi’n ddewr iawn.

MIRIAM: Mae hi’n un arbennig iawn cofia. Beth bynnag, doedd Yncl Joseff ddim yn hapus o gwbl pan glywodd y stori ryfedd ac roedd o eisiau amser i feddwl am y cyfan.

MARTHA: Dwi ddim yn synnu!

MIRIAM: Ond mab Duw oedd y babi!

[*Mae eu lleisiau’n codi*]

MARTHA: Ond sut newidiodd o ei feddwl? Tyrd, caria ’mlaen efo’r stori!

MIRIAM: Gabriel.

MARTHA: Wel, roedd o’n angel prysur ’doedd?

MIRIAM: Wyt ti isio clywed? Iawn. Y noson honno roedd Yncl Joseff yn methu’n lân â chysgu, wedi drysu ynglŷn ag Anti Mair. Yna, daeth Gabriel ato a deud wrtho fo am beidio â phoeni. Roedd y plentyn yn blentyn sanctaidd, a bod y cyfan yn anrhydedd mawr i Anti Mair ac Yncl Joseff. Byddai pobl yn cofio amdany’n nhw am byth! [*Mae’n dechrau anghofio’r stori*] Roedd Anti Mair yn

mynd i gael y babi i brofi'r neges ... neges Eseia ... i'r byd ... "Wele, ... morwyn a fydd feichiog, ... ac a esgor ar fab, ac a eilw ... ei enw ef, ... Immanuel." Wel rhywbeth fel 'na oedd y neges beth bynnag!

MARTHA: Ti'n gwybod be? Dwi'n siŵr mai'r broffwydoliaeth yna sy'n deud bod ein Meseia ni'n dod! All o fod yn wir?

MIRIAM: Be ydy Meseia, Martha?

MARTHA: Y gwaredwr sydd wedi'i addo i ni. Yr un fydd yn cael ei anfon gan Dduw i'n hachub ni, a'n neud ni'r bobl ddylen ni fod – hynny ydy 'run fath ag y gwnaeth Duw i'r dyn cyntaf fod. Yna, fydd gynnwys ni ein gwlad ein hunain a heddwch am byth. Wedyn, byddwn ni'n gallu siarad hefo Duw a byddwn ni dan ei ofal o am byth.

MIRIAM: Ydy hynny'n golygu mai babi Anti Mair ydy'r Meseia?

MARTHA: Wel, mae'n edrych yn debyg iawn tydi? Wyt ti'n siŵr dy fod ti wedi clywed yn iawn rŵan? Nid stori gelwyddog ydy hi?

MIRIAM: Faswn i byth yn deud celwydd! Beth bynnag, wyt ti'n meddwl 'mod i'n ddigon clyfar i feddwl am y fath beth?

MARTHA: Digon teg!

MAM: [*Ei llais i'w glywed yng nghefn y llwyfan*] Martha! Miriam!

MIRIAM: [*Yn rhuthro i guddio'r gwau*]

Mam sy 'na! Cadw hi tu allan i'r drws nes i fi guddio hwn.

MARTHA: [*Yn mynd tuag at y drws*] Mae'n rhy hwyr. Eistedd arno fo!

MAM: [*Yn dod i mewn a cherdded at y merched – a'r ddwy'n ceisio cuddio'r gwau*] O, dyma chi. Mae gen i newyddion da i chi. 'Dan ni newydd glywed fod Anti Leusa wedi cael y babi, ac mae'r ddau'n iawn. Bachgen bach gafodd hi a wyddoch chi be ydy 'i enw fo? Ioan. Enw bach del 'dê? Cefnder bach newydd sbon i'r ddwy ohonoch chi.

MARTHA
A MIRIAM:

Ioan!

MAM: Ia, Ioan.

MARTHA: Ar ôl pwy maen nhw wedi'i alw fo Mam? Does 'na 'run Ioan arall yn y teulu nag oes?

MAM: Wel Martha fach, mae honno'n stori hir – fe ddyweda i wrthach chi pan fyddwch chi 'chydig yn hŷn. [*Mae hi'n symud fel petai am adael y llwyfan ond mae hi'n newid ei meddwl*] Mae'n debyg mai Yncl Sacharias oedd yn mynnu cael yr enw, ac fel rydach chi'n gwybod, mae o'n uwch-offeirad pwysig. Does 'na neb yn dadlau efo fo! Daw'r enw gan Dduw medda fo!

MIRIAM: Ioan. Ydy, mae'n enw bach del iawn. Cefnder bach newydd. Pryd gawn ni fynd i'w weld o Mam? Gawn ni fynd i aros efo nhw tra bod Dad a chitha'n mynd i Jerwsalem ar gyfer y cyfrifiad? Plis Mam?

MAM: Gawn ni weld! [*Mae'n dal i nesáu at y drws*]

MARTHA: Mam, ydy Yncl Sacharias yn well erbyn hyn?

MAM: Ydy, mae'n dechrau cael ei leferydd yn ôl. Rhyfedd 'dê? Yn syth wedi iddyn nhw enwi babi Leusa. Mae rhai yn deud mai Duw ddaru ei wneud o'n fud am nad oedd o'n credu fod Anti Leusa'n mynd i gael babi. Wyddoch chi be ddeudodd o pan ddaeth ei leferydd o'n ôl – wel, ddeudodd o fod Duw wedi anfon Ioan i'r byd i baratoi'r ffordd i'r Meseia. A'i fod yn mynd i ddeud wrth bawb fod Gwaredwr y Byd yn dod cyn hir. Tydi hynny'n newyddion da? Wel dowch rŵan chi'ch dwy – mae'n hwyr. Dwy funud fach arall i chi.

[*MAM yn gadael y llwyfan*]

MIRIAM: [*Mae'r ddwy ferch yn symud i ganol y llwyfan, wedi cyffroi*] Ein Meseia ni? Yn dod mor fuan? Wyt ti'n credu fod hyn yn wir? A hyn i gyd yn digwydd yn ein teulu ni!

MARTHA: Wel, mae'n edrych yn debyg iawn, Miriam.

MIRIAM: Wyt ti'n fy nghredu i rŵan 'ta? Neu ydw i'n wallgo?

MARTHA: Wel, fi fysa'r un wirion taswn i ddim yn dy gredu di 'dê? Fysa hi'n anodd iawn peidio â chredu'r peth bellach!

[*Mae'r ddwy ferch yn gadael y llwyfan. Yna, daw MIRIAM yn ôl i gasglu'r gwau. Mae'n gafael yn y gwau ac yn troi at y gynulleidfa*]

MIRIAM: Ein gwaredwr! Fe fydd ef yma cyn hir.

[*MIRIAM yn gadael y llwyfan*]

[*LLENNI'N CAU*]

DIWEDD